**EITEM AR YR AGENDA: 9**

**PANEL GWEITHREDOL**
**AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU**

**24 Hydref 2016**

# ADRODDIAD GWELLA BLYNYDDOL A THREFNIADAU DIOGELWCH TÂN YNG NGWASANAETHAU TÂN AC ACHUB CYMRU

**Adroddiad gan Simon Smith, Prif Swyddog Tân**

## Diben yr Adroddiad

1 Diben yr adroddiad hwn yw cyflwyno i'r Aelodau adroddiad gwella blynyddol Swyddfa Archwilio Cymru, sydd ynghlwm fel atodiad 1, a'r adroddiad ar drefniadau diogelwch tân yng ngwasanaethau tân ac achub Cymru sydd ynghlwm fel atodiad 2.

## Y Cefndir

2 O dan Fesur Llywodraeth Leol 2009, mae'n ofynnol i Archwilydd Cyffredinol Cymru (ACC) adrodd ynghylch pa mor dda y mae awdurdodau lleol yn cynllunio ar gyfer gwella ac yn cyflwyno eu gwasanaethau.

## Gwybodaeth

3 Mae'r adroddiad gwella blynyddol yn crynhoi'r gwaith archwilio a wnaed yn ATAGC ers Awst 2015. Gan ystyried y gwaith a gyflawnwyd yn ystod 2015-16, bydd yr Archwilydd Cyffredinol yn nodi yn yr adroddiad hwn a yw o'r farn y bydd yr Awdurdod yn debygol o wneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus ar gyfer 2016-17.

4 Mae'r ACC wedi dod i'r casgliad fod yr Awdurdod yn rheoli ei raglen wella yn dda ac yn debygol o gydymffurfio â'r gofynion i wneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus yn 2016-17.

5 Mae'r ACC yn fodlon fod gan yr Awdurdod drefniadau ar waith er mwyn sicrhau ei fod yn cyflawni ei rwymedigaeth i bennu amcanion gwella a chyhoeddi gwerthusiad o'i berfformiad a bod ei drefniadau ar gyfer sicrhau cydnerthedd ariannol yn gadarn. Mae'r adroddiad hefyd yn datgan fod yr Awdurdod yn cynllunio ac yn cynnal amrywiaeth o weithgareddau priodol sy’n gwella diogelwch tân ac mae ganddo drefniadau ar gyfer gwerthuso effaith ymgyrchoedd, ond, fel cyrff eraill, nid oes ganddo fframwaith ar gyfer gwerthuso effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd y gweithgareddau hyn yn llawn. Felly y cynnig cyntaf a awgrymir ar gyfer gwella yw 'ar lefel genedlaethol, datblygu egwyddorion o ran sut i werthuso llwyddiant a chanlyniadau ymyriadau, digwyddiadau a'r gwaith atal presennol'.

6 Yr ail gynnig yw 'ar lefel genedlaethol, sefydlu trefniadau gydag Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru a chyrff iechyd perthnasol er mwyn nodi faint o anafiadau na roddir gwybod amdanynt a achosir gan danau fel y gellir nodi pobl a allai fod yn agored i niwed neu safleoedd risg uwch'.

7 Mae Swyddfa Archwilio Cymru hefyd wedi gwneud astudiaeth fanwl ar drefniadau diogelwch tân yng ngwasanaethau tân ac achub Cymru ac atodir yr adroddiad hwn yn atodiad 2 at sylw aelodau. Mae'r cynigion a awgrymir ar gyfer gwella yr un fath â'r rhai a nodwyd yn yr adroddiad gwella blynyddol.

**Argymhelliad**

8 Gofynnir i’r Aelodau nodi’r adroddiad gwella blynyddol a'r adroddiad ar drefniadau diogelwch tân yng ngwasanaethau tân ac achub Cymru.